## Ffurflen Adroddiad Arolwg Adran 50 o Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

**Ysgol Pant Pastynog**

Prion

Dinbych.

LL16 4SA

**Esgobaeth: Llanelwy**

Awdurdod Lleol: Sir Ddinbych
Dyddiadau'r arolwg: 11eg Mai 2026
Dyddiad yr arolwg diwethaf: Mehefin 19eg a'r 20fed 2019
Rhif cyfeirnod unigryw'r ysgol: 6633057
Pennaeth: Mr Meirion Edwards
Enw'r arolygydd: Dr. Carol James

**Cyd-destun yr Ysgol**

Mae Ysgol Pant Pastynog yn ysgol cyfrwng Cymraeg a reolir gan yr Eglwys yng Nghymru ac wedi'i lleoli ym mhentref gwledig Prion, Sir Ddinbych. Sefydlwyd yr ysgol yn 1864. Mae 49 o ddisgyblion amser llawn a 9 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae'r ysgol yn cynnwys 3 dosbarth gyda thri grŵp oedran cymysg, meithrin/derbyn/blwyddyn 1, blynyddoedd 2, 3 a 4 a blynyddoedd 5 a 6. Yn y Dysgu Sylfaen, Cymraeg yw iaith addysg y disgyblion ac fe gyflwynir Saesneg fel pwnc i'r dysgwyr ym mlwyddyn 3. Mae'r Pennaeth yn ei swydd ers mis Ionawr 2021 ac yn dysgu 0.45 o'r amser. Ceir 1 athrawes llawn amser a 3 athrawes rhan amser. Daw tua 70% o'r disgyblion o gartrefi gyda Chymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r ysgol wedi nodi bod 0% o'r disgyblion ag ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) a'r dangosydd Prydau Ysgol am Ddim yw 3%. Nid oes disgyblion o gefndir ethnig. Roedd presenoldeb ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn 94.44%.

**Arbenigrwydd ac effeithiolrwydd Ysgol Pant Pastynog fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru**

Mae Ysgol Pant Pastynog yn gymuned hapus, ofalgar a chroesawgar sy'n ymrwymedig i feithrin disgyblion iach, hyderus a chyflawn. Trwy hyrwyddo 'Parchu Pawb a Phopeth', sef arwyddair yr ysgol, mae'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion egwyddorol, moesol a gwybodus sy'n barod i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas. Gosodir disgwyliadau uchel ar bob dysgwr er mwyn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial a datblygu'n gyfranogwyr mentrus, creadigol ac annibynnol. Mae gwerthoedd ac ethos Cristnogol yr ysgol yn darparu sylfaen gadarn

ar gyfer meithrin disgyblion uchelgeisiol a galluog, a fydd yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned leol a'r gymdeithas ehangach.

Mae ethos Gristnogol yr ysgol yn sicrhau amgylchedd gynnes, ddiogel a chroesawgar lle mae pob disgybl yn teimlo'n eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu i'w llawn botensial. Mae'r gwerthoedd craidd — Parchu, Cariad, Cyfiawnder, Maddeuant a Gwasanaethu — wedi'u gwreiddio'n ddwfn ym mywyd a gwaith dyddiol yr ysgol.

Mae diwylliant yr ysgol yn gynhwysol a chefnogol iawn. Mae disgyblion yn disgrifio ymdeimlad cryf o berthyn ac yn dangos gofal gwirioneddol tuag at ei gilydd. Mae disgyblion hŷn yn cefnogi plant iau yn naturiol, gan gyfrannu at ethos deuluol a gydnabyddir fel cryfder gan rieni a'r gymuned ehangach. Mae'r amgylchedd gynhwysol hon yn sicrhau bod pob dysgwr yn teimlo'n hapus a diogel, yn cael ei werthfawrogi ac yn gallu ffynnu. Mae'r perthnasoedd ar draws yr ysgol yn barchus ac yn ofalgar, gan adlewyrchu ymrwymiad yr ysgol i fyw eu gwerthoedd Cristnogol. Mae gan y disgyblion agwedd bositif tuag at ddysgu. Mae llais y dysgwr yn nodwedd gref yn yr ysgol trwy eu pedwar pwyllgor ac maent yn dylanwadu ar fywyd Cristnogol yr ysgol a'r gymuned.

Mae Ysgol Pant Pastynog yn cael ei harwain yn effeithiol iawn ac mae'r Pennaeth ysbrydoledig a brwdfrydig yn arwain trwy esiampl. Mae'r staff i gyd yn ymroddedig iawn ac yn mynd y milltiroedd ychwanegol er lles y disgyblion a'r gymuned ehangach. Cefnogir yr ysgol yn effeithiol iawn gan Lywodraethwyr cefnogol a gwybodus am fywyd yr ysgol fel cymuned Gristnogol gadarn. Mae rhieni'r ysgol, gwirfoddolwyr a'r gymuned yn gwerthfawrogi y gofal a'r addysg o'r radd flaenaf y mae'r disgyblion yn ei dderbyn yn yr ysgol.

**Cryfderau sefydledig**

- Gweledigaeth ac arweinyddiaeth ysbrydoledig y Pennaeth a gefnogir yn effeithiol gan staff a llywodraethwyr brwdfrydig ac ymroddgar
- Gwerthoedd cadarn a sefydledig yr ysgol sy'n cael eu byw trwy brofiadau Cristnogol yn yr ysgol a'r gymuned
- Ymdeimlad cryf o berthyn i un teulu hapus, gofalgar a chynhwysol sy'n cael ei adlewyrchu ym mherthnasoedd clos a pharchus ar draws yr ysgol
- Brwdfrydedd y disgyblion tuag at ddysgu a'u hymrwymiad i gymryd rhan lawn ym mywyd ac ethos Cristnogol yr ysgol

**Argymhellion**

- Amlygu a dathlu hunaniaeth Ysgol Pant Pastynog fel un eglwysig yn holl ddogfennaeth a gohebiaeth yr ysgol a chreu mwy o gysylltiadau gydag ysgolion eglwysig yng Nghymru
- Sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer gweddïo a myfyrio drwy ddatblygu corneli myfyrio ym mhob dosbarth ac ailsefydlu ardal ysbrydol allanol.
- Datblygu cyfleoedd pellach i ddisgyblion gynllunio ac arwain cydaddoli, ynghyd â mireinio prosesau gwerthuso addoli ar y cyd.
- Cryfhau ymhellach y ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy ddatblygu ystod gyfoethog o weithgareddau ysgogol a phwrpasol yn rheolaidd sy'n adlewyrchu cynlluniau trylwyr yr ysgol.

**Mae'r ysgol, trwy ei chymeriad Cristnogol unigryw, yn diwallu anghenion pob dysgwr gan gynnwys cyfraniad Crefydd, gwerthoedd a moeseg i Gymeriad Cristnogol yr ysgol**

Mae gan Ysgol Pant Pastynog gymeriad Cristnogol dwfn sydd wedi'i wreiddio'n gadarn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol ac sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at ddiwallu anghenion pob dysgwr. Mae gwerthoedd Cristnogol craidd yr ysgol wedi'u diffinio'n glir ac yn cael eu byw'n gyson, gan ffurfio sylfaen foesol ac ysbrydol gadarn i gymuned yr ysgol. Mae'r gwerthoedd hyn yn cael eu deall a'u mynegi'n hyderus gan ddisgyblion ac oedolion, ac maent yn amlwg yn y perthnasoedd, yr ymddygiad a phrofiadau dyddiol bywyd yr ysgol.

Mae gwerthoedd yr ysgol yn atgyfnerthu ei hethos Gristnogol ac yn ganolog i bob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r arddangosfeydd ar draws yr ysgol yn adlewyrchu ei chymeriad Cristnogol yn effeithiol ac yn cyfrannu at greu amgylchedd cynnes a myfyriol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi datblygu cornel fyfyrio bwrpasol yn y neuadd, sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ar fyfyrio a llunio gweddïau eu hunain. Er bod corneli gweddïo a myfyrio mewn rhai dosbarthiadau, mae angen ymestyn y ddarpariaeth hon ar draws yr ysgol a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol i gefnogi datblygiad ysbrydol y disgyblion. Byddai ailsefydlu ardal weddïo a myfyrio allanol hefyd yn cryfhau'r ddarpariaeth ymhellach, gan alluogi disgyblion i fyfyrio a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol a'r olygfa odidog o safle'r ysgol.

Mae staff yr ysgol yn gweithio'n effeithiol fel tîm gofalgar ac ymroddedig, gan adlewyrchu gwerthoedd Cristnogol drwy berthnasoedd parchus a chefnogol. Maent yn rhoi lles y disgyblion wrth wraidd eu gwaith, ac mae disgyblion yn teimlo'n hyderus i droi atynt am gefnogaeth. Mae rhieni a gofalwyr yn canmol y pennaeth a staff yr ysgol ac yn cydnabod dylanwad cadarnhaol ethos Gristnogol yr ysgol ar ymddygiad da ac agwedd y disgyblion. Mae llais y disgybl yn cael ei werthfawrogi'n fawr drwy strwythur effeithiol o bedwar pwyllgor ysgol sy'n cynnwys disgyblion o flynyddoedd 2 i 6 sef Sam, Greta, Cai ac Iori. Mae'r pwyllgorau'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion rannu syniadau, cyfrannu at benderfyniadau ac arwain ar ddatblygiad yr ysgol. Mae pob disgybl yn cael cyfle i gymryd rhan yn y gwahanol bwyllgorau, gan ddatblygu eu sgiliau arweinyddiaeth a'u hymdeimlad o gyfrifoldeb. Mae gwaith y pwyllgorau yn adlewyrchu gwerthoedd Cristnogol yr ysgol yn effeithiol.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r ethos a chymeriad Cristnogol yr ysgol. Mae'r cynllunio'n gryf, gyda dilyniant clir drwy ddefnyddio lensys thematig sy'n sicrhau parhad ar draws yr ysgol. Mae disgyblion yn ymgysylltu ag ystod o weithgareddau dysgu pwrpasol a phrofiadau byw cyfoethog sy'n dod â CGM yn fyw. Mae dulliau ymarferol, megis chwarae rôl, ymweliadau a thasgau profiadol, yn galluogi disgyblion i ymgysylltu'n ddwfn â chysyniadau crefyddol a datblygu dealltwriaeth ystyrlon.

Mae arsylwadau'n dangos bod disgyblion yn dangos gwybodaeth gadarn o gredoau ac arferion Cristnogol ac yn gallu eu trafod yn hyderus ac aeddfed. Medrant gymharu gwahanol ffydd a safbwyntiau byd-eang yn ystyriol, gan ddangos parch at safbwyntiau gwahanol. Mae'r pwyslais ar ymholi treiddgar yn cefnogi disgyblion i

ddatblygu ymatebion myfyriol a meddylgar. Mae angen i'r ysgol barhau i ddatblygu dealltwriaeth a pharch y disgyblion at bob crefydd, credo a byd olygon anghrefyddol, gan adlewyrchu'r amrywiaeth sy'n bodoli yng nghymdeithas flaengar Cymru.

Mae'r defnydd o brofiadau byw yn gryfder amlwg. Mae gweithgareddau megis archwilio bedydd, cymryd rhan mewn priodas ffug ac ymgysylltu â phrosiectau dinasyddiaeth fyd-eang yn galluogi disgyblion i gysylltu dysgu â chyd-destunau bywyd go iawn. Mae'r profiadau hyn yn gwneud dysgu'n ystyrlon ac yn gofiadwy. Hefyd, mae disgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau codi arian a phrosiectau cymunedol, gan ddangos ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb dros eraill. Mae hyn yn cynnwys gwaith gydag elusennau, mentrau amgylcheddol a gweithgareddau rhyng-genedlaethol megis Banc Bwyd Dinbych, Plant Mewn Angen a Chymorth Cristnogol.

Yn gyffredinol, mae cymeriad Cristnogol nodedig yr ysgol yn gryfder canolog, gan greu cymuned gydlynol a chynhwysol lle caiff pob dysgwr ei gefnogi i dyfu'n academaidd, yn gymdeithasol ac yn ysbrydol.

**Dylanwad addoli ar y cyd ar gymuned yr ysgol**

Mae addoli ar y cyd yn agwedd ganolog a gwerthfawr iawn ar fywyd dyddiol yn Ysgol Pant Pastynog. Mae addoli yn gynhwysol ac ysbrydoledig, gan ddarparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion, staff a chymuned ehangach yr ysgol fyfyrio'n ysbrydol, archwilio gwerthoedd Cristnogol a datblygu dealltwriaeth ddyfnach o ffydd a chred. Caiff addoli ei gynllunio'n ofalus i adlewyrchu gweledigaeth a gwerthoedd Cristnogol yr ysgol ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at yr ymdeimlad cryf o gymuned a pherthyn sy'n amlwg yn yr ysgol.

Defnyddir cerddoriaeth, delweddau gweledol ac elfennau symbolaidd megis canhwyllau yn effeithiol i gefnogi myfyrdod ysbrydol a chyfoethogi'r profiad o addoli. Delwedd o ffenestr lliw Jesse o Eglwys Dyfnog Sant, Llanrhaeadr a ddangoswyd ar y sgrin ochr yn ochr â cherddoriaeth fyfyriol yn creu awyrgylch pwrpasol ac ysbrydol i droi'r neuadd yn fan ystyriol i addoli. Mae'r themâu a archwilir yn ystod addoli wedi'u cysylltu'n agos â gwerthoedd Cristnogol yr ysgol. Er enghraifft, yn ystod addoli ar y cyd ar waith Cymorth Cristnogol a arsylwyd, cafodd y disgyblion gyfle i fyfyrio'n ystyrlon ar anghenion pobl eraill a'u rôl i wasanaethu fel dinasyddion byd-eang.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn addoli o fewn yr ysgol gan gyfrannu gweddïau, myfyrdodau a chyflwyniadau gyda hyder ac aeddfedrwydd. Mae aelodau o bwyllgorau'r disgyblion yn siarad yn frwdfrydig am eu cyfraniad at addoli ac yn deall pwysigrwydd gweddi a myfyrdod ym mywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ysgrifennu gweddïau, arwain ymatebion ar y cyd a chyfrannu syniadau drwy focsys awgrymiadau a chyfarfodydd pwyllgor. Byddai'n fuddiol iddynt i gael mwy o gyfleoedd i gynllunio ac arwain cydaddoli.

Mae gweddi yn rhan naturiol a dilys o fywyd dyddiol yr ysgol. Mae disgyblion yn siarad yn hyderus am rôl gweddi ac yn ymgysylltu'n barod â chyfleoedd gweddi ar y cyd a phersonol. Caiff gweddi ei hymgorffori'n naturiol drwy gydol y diwrnod ysgol, gan gynnwys mewn gweithgareddau dosbarth ac adegau o fyfyrio. Nododd rhieni fod plant yn trafod gweddïau, gwasanaethau a phrofiadau cysylltiedig â ffydd yn

rheolaidd gartref, gan ddangos yr effaith barhaol y mae addoli yn ei chael ar ddatblygiad ysbrydol y disgyblion.

Mae'r cysylltiadau cryf rhwng addoli a bywyd yr eglwys leol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion ymhellach. Mae clerigwyr, gweinidogion ac ymwelwyr megis criw 'Troi'r Dudalen' a'r Ymwelydd Esgob yn cyfrannu'n rheolaidd ac effeithiol tuag at addoli ac yn cefnogi dealltwriaeth y disgyblion o gredoau a thraddodiadau Cristnogol. Mae'r ysgol yn elwa o bartneriaethau cryf gyda'r eglwys a'r capel lleol a sefydliadau Cristnogol. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwasanaethau eglwysig yn Eglwys Dyfnog Sant Llanrhaeadr a digwyddiadau cymunedol megis gorymdaith Gŵyl Ddewi yn Ninbych ac yn siarad yn gadarnhaol am y profiadau hyn.

Mae rhieni, gofalwyr ac aelodau o'r gymuned yn cydnabod pwysigrwydd addoli ar y cyd wrth lunio ethos gofalgar a pharchus yr ysgol. Maent yn disgrifio'r ysgol fel man lle mae gwerthoedd Christnogol yn cael eu byw'n llawn ac lle mae addoli, yn cryfhau perthnasoedd ar draws cymuned yr ysgol. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a ddarperir ar gyfer myfyrio a thwf ysbrydol ac yn gwerthfawrogi'r modd y mae addoli yn ategu ac yn cyfoethogi profiadau teuluol.

Mae addoli ar y cyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad ysbrydol disgyblion Ysgol Pant Pastynog. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio'n ddwfn, gofyn cwestiynau ac ystyried materion yn ymwneud ag ystyr a phwrpas o fewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae addoli yn annog disgyblion i ddatblygu chwilfrydedd, empathi a pharch tuag at eraill. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dangos hyder wrth drafod ffydd, gwerthoedd a chred, gan adlewyrchu'r effaith gadarn y mae addoli yn ei chael ar eu dealltwriaeth ohonynt eu hunain a'r byd o'u cwmpas.

**Effeithiolrwydd arweinyddiaeth yr ysgol fel ysgol eglwysig**

Mae'r pennaeth profiadol yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac ysbrydoledig sy'n ganolog i feithrin ethos teuluol a Cristnogol cryf yr ysgol. Mae ei ymrwymiad i hyrwyddo cymeriad eglwysig yr ysgol yn amlwg yn y modd y mae gwerthoedd Cristnogol yn llywio cynllunio strategol, datblygiad y cwricwlwm, perthnasoedd ac arferion dyddiol. Cefnogir y pennaeth yn effeithiol gan y cydlynydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM), ac mae'r arweinwyr yn llwyddo i feithrin tîm o staff ymroddgar sy'n gweithio'n gydweithredol i gynnal amgylchedd gofalgar, cynhwysol a chefnogol.

Mae gwerthoedd Cristnogol yr ysgol wedi'u gwreiddio'n glir o fewn prosesau gwella ysgol a dogfennau strategol, gyda ffocws pendant ar ddatblygu ethos a chymeriad eglwysig yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn chwarae rhan weithredol a gwerthfawr ym mywyd yr ysgol, gan ddarparu cefnogaeth a her briodol i'r arweinwyr. Maent yn wybodus am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac yn monitro effaith penderfyniadau ar les a datblygiad y disgyblion yn effeithiol. Mae'r berthynas waith gadarnhaol rhwng y pennaeth a'r corff llywodraethol yn cryfhau gweledigaeth Gristnogol yr ysgol ac yn cefnogi gwelliant parhaus. Mae prosbectws yr ysgol, adroddiadau blynyddol a'r wefan yn cyfleu gweledigaeth yr ysgol yn glir ac yn effeithiol. Mae arweinwyr hefyd yn cydnabod cyfleoedd i gryfhau ymhellach y modd y caiff hunaniaeth eglwysig yr ysgol ei chyfleu i ymwelwyr a theuluoedd newydd.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Mae'r berthynas rhwng y pennaeth â'r Llywodraethwyr yn bositif a chefnogol iawn. Maent yn wybodus o ran digwyddiadau a materion ac yn awyddus i ddatblygu a chryfhau gweledigaeth Gristnogol yr ysgol ymhellach. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn darparu cefnogaeth a her briodol i'r arweinwyr. Mae llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro, gan gynnwys arsylwi gwersi ac ymgysylltu â disgyblion, ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Rhennir cyfrifoldebau'n effeithiol ymhlith y llywodraethwyr, gan eu galluogi i gyfrannu'n ystyrlon at wella'r ysgol a datblygiad yr ysgol eglwys. Mae gan y Llywodraethwyr ddealltwriaeth glir o bwrpas ysgol eglwys a lle'r ysgol o fewn y byd ehangach. Mae'r Corff Llywodraethol yn ymwybodol ac yn gweithredu'n effeithiol o fewn eu rôl fel 'ffrind beirniadol'.

Mae arweinwyr wedi sefydlu partneriaethau cryf gyda'r eglwys leol, sefydliadau cymunedol ac ysgolion eraill, sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn sylweddol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau gyda rhai ysgolion eglwysig i rannu arfer dda a chydweithio ar gynlluniau gwaith newydd. Byddai'n fanteisiol i ehangu hyn i gynnwys ysgolion ledled Cymru i ymestyn eu cylch gweithio gydag eraill. Mae perthnasoedd gyda'r eglwysi lleol, Clwb Capel, elusennau Cristnogol a grwpiau cymunedol yn cryfhau bywyd ysbrydol a moesol yr ysgol ac yn darparu cyfleoedd dilys ar gyfer addoli a myfyrio. Mae'r ysgol yn chwarae rhan ganolog yn ei chymuned wledig, gyda digwyddiadau megis boreau coffi tuag at Macmillan a Chymorth Cristnogol, sy'n helpu i gryfhau perthnasoedd ar draws y cenedlaethau. Mae'r ysgol yn ddiweddar wedi bod yn rhan o brosiect 'Pontio'r Cenedlaethau' ble mae'r disgyblion wedi cael cyfle i fynd i Gapel Llanrhaeadr ac Ysbyty Dinbych er mwyn cael cyfle i gyd ganu gyda thrigolion hŷn a chleifion lleol. Soniodd aelodau'r gymuned yn gynnes am natur groesawgar yr ysgol a'r dull cynhwysol a fabwysiedir gan arweinwyr. Mae cymdogion yr ysgol yn darparu cefnogaeth i'r disgyblion trwy wrando ar ddarllen a chynnig defnydd o'i gardd, sy'n cynnig profiadau gwerth chweil i'r disgyblion.

Mae aelodau'r gymuned a rhieni'n canmol natur gynhwysol a chroesawgar yr ysgol, ac yn gwerthfawrogi'r modd y mae staff yn adnabod a chefnogi pob plentyn yn unigol. Mae'r rhieni'n hyderus fod eu plant yn hapus, yn ddiogel ac yn cael eu meithrin mewn amgylchedd Cristnogol gofalgar, ac maent yn gwerthfawrogi'r berthynas agored a chefnogol sydd rhyngddynt â'r ysgol.

**Spotolau**

Drwy arweinyddiaeth gadarn sy'n seiliedig ar werthoedd Cristnogol, mae Ysgol Pant Pastynog wedi meithrin cymuned ysgol eglwys lewyrchus lle mae disgyblion ac oedolion yn cael eu parchu, eu cefnogi a'u hysbrydoli i ffynnu. Mae'r pedwar pwyllgor ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd yr ysgol ac yn hyrwyddo gwerthoedd craidd yr ysgol yn effeithiol iawn.

Mae'r cydlynydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ar y cyd â hyfforddwraig canu sy'n ymweld â'r ysgol, wedi datblygu cân fodern a bachog sy'n hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r gân wedi cael effaith gadarnhaol amlwg ar y disgyblion, sy'n cyfeirio'n hyderus at eiriau'r gân wrth drafod gwerthoedd yr ysgol. Trwy ei pherfformio'n rheolaidd, mae'r gân yn cryfhau ymdeimlad o berthyn, balchder ac ysbryd cymunedol ymhlith y disgyblion, gan gefnogi eu datblygiad ysbrydol, moesol ac emosiynol, yn ogystal ag atgyfnerthu hunaniaeth Gristnogol yr ysgol.

| | |
|---|---|
| **Mae'r ysgol yn bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer gweithredoedd o addoli ar y cyd** | **YDY** |
| **Mae'r ysgol yn bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg (lle arolygwyd)** | **YDY** |
| **Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol** | **YDYNT** |